**Adroddiad Cyfarfod 11:03:20**
**Dathlu Gŵyl Ddewi – ymweliad i Halen Môn, a bwyd yn yr Anglesey Arms**

Aethom ar ymweliad i halen Môn eleni i ddathlu Gŵyl Ddewi. Roedd y sgwrs gan Eluned ar sut gychwynnodd y busnes, sut mae cynhyrchu'r halen, a'r daith o amgylch yr adeilad yn hynod o ddiddorol. Cawsom gyfle i wario yn y siop chwaethus hefyd.

Wedyn aethon ymlaen i'r Anglesey Arms ym Mhorthaethwy ble cawsom ymlacio a sgwrsio dros bryd gwerth chweil o fwyd. Enillwyd y raffl gan Cecile, Nan a Gwenan. Cewch weld ein lluniau ar ein gwefan mywbethel.org

Cawson wybodaeth am weithgareddau Merched Y Wawr gan ein Llywydd Mair Read. Cofiwch hefyd am y caffi 'Pop-up' yn festri'r Cysegr am 10yb ar 24/03/20 i godi arian i'r Genhadaeth.

Mae'n parhau yn bosib dod a nwyddau i Fanc Bwyd Caernarfon i'r Cysegr, neu i gartref Richard Llwyd Jones yn Y Ddôl.

Braf yw clywed fod Mary Wyn Jones yn gwella ar ôl ei thriniaeth yn Walton. Anfonwyd cofion cynnes at Anwen Jones sydd wedi cael triniaeth ar ei llygaid, ac i Gwyneth Williams sy'n mendio hefyd.

Ar Ebrill 8fed bydd Nan Jones yn dod atom i greu cardiau Pasg. Cofiwch ddod a siswrn a glud gyda chi.